# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)13-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 6 Mai 2008

**Amser:** 8.30am

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)12-08 (cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 29 Ebrill 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)13-08(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai trafodion Cyfnod 3 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG yn cael eu cynnal ddydd Mawrth. Dywedodd y cadeirydd yr anfonwyd canllawiau at Aelodau i'w helpu i baratoi ar gyfer y ddadl.

3.2 Cytunodd y pwyllgor na fyddai'r cyfnod pleidleisio'n digwydd cyn 4.30pm ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

3.3 Nododd y pwyllgor drefn y busnes ar gyfer 6 a 7 Mai 2008.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)13-08(p2)**

3.4 Nododd y pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)13-08(p3)**

3.5 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Papur ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) 2008 (a enwyd gynt yn "Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008)" - BC(3) 13-08(p4)**

4.1 Nododd y Pwyllgor Busnes y papur ar y Gorchymyn Arfaethedig wedi'i ddiwygio, '"Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) 2008"' (a enwyd gynt yn '"Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008'"). Yn ei gyfarfod ar 8 Ebrill, cytunodd y Pwyllgor Busnes, fel egwyddor cyffredinol, nad oedd angen i'r pwyllgor graffu

ymhellach mewn achosion lle'r oedd y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd yn wahanol i'r fersiwn a gyflwynwyd yn y Cynulliad gan fod y Cyfarfod Llawn yn gyfrwng priodol i fynegi unrhyw bryderon ynghylch y fersiwn ddrafft derfynol. Felly, cytunodd y Pwyllgor Busnes na ddylid cyfeirio'r Gorchymyn diwygiedig yn ôl i'r Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy i'w ystyried ymhellach. Cadarnhaodd y pwyllgor hefyd ei farn y dylai'r Llywydd benderfynu a yw Gorchymyn wedi cael ei newid yn sylweddol ai peidio.

**Papur ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) - Opsiynau ar gyfer ystyried y Mesur yn ystod Cyfnod 2 - BC(3) 13-08(p5)**

4.2 Trafododd y Pwyllgor Busnes yr opsiynau ar gyfer ystyried y Mesur yn ystod Cyfnod 2 a chytunodd y dylid ei gyfeirio i bwyllgor newydd. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r pwyllgor yn cael ei sefydlu a'i ethol cyn gynted â phosibl.

**5. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Cais gan y Pwyllgor Deisebau i gynnal ymweliad casglu gwybodaeth - BC(3)13-08(p4)**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y cais gan y Pwyllgor Deisebau i ymweld ag ardal Old Merthyr Road a'r ardal o amgylch ddydd Iau 8 Mai i gasglu gwybodaeth mewn perthynas â deiseb yn galw am ffordd cymorth i gysylltu ystad ddiwydiannol Tafarnaubach â'r A465 ger Tredegar. Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y cais.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**